Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2018 Rhif 197 (Cy. 46)

# PWERAU YMCHWILIO, CYMRU

# Gorchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) (Diwygio) (Cymru) 2018

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru ac mae'n diwygio Gorchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) 2010 ("y Prif Orchymyn").

Mae erthygl 2 y Gorchymyn hwn yn diwygio'r Prif Orchymyn drwy fewnosod cofnod yn Rhan 1 o'r Atodlen i'r Prif Orchymyn mewn perthynas ag Awdurdod Cyllid Cymru ("ACC"). Mae hyn er mwyn rhagnodi gradd y bobl hynny o fewn ACC sy'n gallu awdurdodi gweithgarwch at ddibenion adrannau 28 a 29 o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2018 Rhif 197 (Cy. 46)

# PWERAU YMCHWILIO, CYMRU

## Gorchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) (Diwygio) (Cymru) 2018

*Gwnaed* *20 Chwefror 2018*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *21 Chwefror 2018*

*Yn dod i rym* *1 Ebrill 2018*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 30(1) a (6A) o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000(**1**).

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) (Diwygio) (Cymru) 2018.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2018.

**Diwygio Gorchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) 2010**

**2.** Yn Rhan 1 o'r Atodlen i Orchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a

(**1**) 2000 p. 23. Diwygiwyd adran 30 gan adran 187 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (dccc 6). O ganlyniad i'r diwygiad hwn, mae'r pŵer yn is-adran 30(1) yn arferadwy gan Weinidogion Cymru at ddibenion rhagnodi personau sy'n arfer swyddogaethau Awdurdod Cyllid Cymru o unrhyw ddisgrifiad neu sy'n dal unrhyw swydd neu radd a ragnodir.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) 2010(**1**) (swyddi etc. a chyfyngiadau mewn cysylltiad ag awdurdodau cyhoeddus a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf), ar ôl y cofnod ar gyfer "The Welsh Assembly Government"(**2**) mewnosoder—

| | | | |
|---|---|---|---|
| "The Welsh Revenue Authority | Grade 7 or equivalent | — | Paragraphs (b) and (f)". |

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, un o Weinidogion Cymru
*20 Chwefror 2018*

(**1**) O.S. 2010/521, y mae diwygiadau iddo ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.
(**2**) Addaswyd gan Ddeddf Cymru (p. 29), adran 4(4)(a) fel bod rhaid ei ddarllen "The Welsh Government".